



Cynllun Gwella Rhan I: Amcanion Gwella 2015/16

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011- 2021	4
Cynllun Corfforaethol 2013 - 2017	5
Amcanion Gwella 2015 – 2016	6
Cyhoeddi ein Hamcanion Gwella	7
Adolygu ein cynnydd ac adrodd am gynnydd.....	8
Bod yn rhan ohoni.....	9
Amcan 1	10
Amcan 2	13
Amcan 3	16
Amcan 4	19
Amcan 5	23

Cyflwyniad

Mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg i ymgyrraedd at y safon orau o wasanaeth drwy wella ei ddarpariaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon. Mae'n rhaid iddo wneud hyn nid yn unig y tu fewn i'r sefydliad ei hun ond trwy gydweithio â'i gydgynghorau, Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill y sector cyhoeddus a chymunedau'r Fro.


Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, bydd disgwyl i'r cyngor gyflawni ei ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 drwy gyhoeddi ei amcanion gwella. Yn y cynllun hwnnw, caiff trigolion wybod yn union beth sydd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn i ddod, a beth i'w ddisgwyl petai'r amcanion yn cael eu cyflawni.

Er bod y cynllun yn ymdrin yn benodol â'n prif amcanion gwella, byddwn yn parhau i geisio gwella meysydd eraill. Mae camau arfaethedig ar gyfer gwella ein gwaith o ddydd i ddydd wedi'u hegluro yn ein cynlluniau gwasanaeth. Ar gyfnod o gwtogi enbyd ar gyllidebau, y mae angen cyfeiriad pendant ar y cyngor a gallu i benderfynu ar flaenoriaethau, am na allwn wneud pob dim. Cewch weld ein holl gynlluniau gwasanaeth ar ein gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk.

Mae'r cyngor wedi ymrwmo i gyflawni ei amcanion gwella yng nghyd-destun y gwerthoedd craidd y mae wedi'u mabwysiadu sef:

- **Darparu gwasanaethau da:** Credwn mewn darparu gwasanaethau o safon sy'n rhoi gwerth am arian, a byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud hynny gan lynu wrth y gwerthoedd eraill. Byddwn yn cofleidio syniadau arloesol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i wella a darparu ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid.
- **Gweithredu'n ddidwyll:** Bydd penderfyniadau'r cyngor yn agored ac yn ddidwyll, a byddwn yn newid dulliau gweithredu'r cyngor er mwyn cyflawni hyn.
- **Ymgynghori:** Cyn dod i benderfyniadau arwyddocaol, byddwn yn ymgynghori â'r unigolion, grwpiau a chymunedau y mae penderfyniadau o'r fath yn debyg o effeithio arnynt.
- **Galluogi:** Gwnawn ein gorau i helpu pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys rhai na chawsant unrhyw wrandawriad yn y gorffennol, i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Dod â'r gwahanol elfennau ynghyd



Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011- 2021

Mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i lunio strategaeth gymunedol er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal a'i helpu i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg wedi llunio Strategaeth Gymunedol integredig a fydd yn pennu cyfeiriad y Fro yn ystod y deng mlynedd nesaf. Cytunwyd ar weledigaeth gyffredinol a nifer o ganlyniadau blaenoriaeth gyda'r bwriad o greu Bro sy'n:

- ddiogel, glân a deniadol, lle mae cyfle cynaliadwy i unigolion a chymunedau wella eu hiechyd, eu haddysg, eu sgiliau, eu sefyllfa ariannol a'u lles, a lle y
- mae teimlad cryf o gymuned a gallu ac ysgogiad gan grwpiau ac unigolion lleol i gyfrannu'n effeithiol tuag at gynnaladwyedd yr ardal yn y dyfodol.

Mae ein hamcanion gwella'n cefnogi'r canlyniadau hyn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael ei gefnogi gan bum partneriaeth strategol sy'n cydweithio er mwyn cyflawni deg canlyniad blaenoriaeth:

1. Mae pobl o bob oedran yn cymryd rhan ymarferol ym mywyd y Fro, ac yn ddigon craff a hyderus i adnabod eu hanghenion fel unigolion ac fel aelodau o gymuned.
2. Rydym yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol pobl leol drwy gynnig gwasanaethau a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac yn hawdd eu defnyddio.
3. Mae trigolion a sefydliadau'r Fro'n parchu'r amgylchedd lleol ac yn cydweithio er mwyn ateb her newid hinsawdd.
4. Mae pobl hŷn yn cael parch a chymorth i aros yn annibynnol, iach a gweithredol. Rhoddir cyfle cyfartal iddynt, a gallant fanteisio ar wasanaethau o safon sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion amrywiol.
5. Mae gan blant a phobl ifanc y Fro ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddio pob math o wasanaethau o safon, sy'n eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle mewn bywyd y tu fewn a'r tu allan i'w cymunedau.
6. Caiff pobl o bob oedran fanteisio ar gyfleoedd dysgu sydd wedi'u cyd-drefnu, ac y mae ganddynt sgiliau sy'n caniatáu iddynt sylweddoli eu potensial yn llwyr a goresgyn y rhwystrau sy'n eu cadw rhag cael swydd.
7. Rydym yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol amddifadedd, ac yn sicrhau bod y Fro'n parhau i gael ei hadfywio, bod mwy o gyfle i unigolion a busnesau a bod safon yr amgylcheddau adeiledig a naturiol yn cael ei gwarchod a'i gwella.
8. Mae'r Fro'n gwneud y gorau o'i safle yn yr ardal drwy gydweithio â'i chymdogion er lles pobl a busnesau lleol a denu ymwelwyr, trigolion a buddsoddiad.
9. Mae trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel, a'r Fro'n cael ei hadnabod fel ardal lle nad oes fawr o drosedd.
10. Mae llai o ddiffyg cydraddoldeb ym maes iechyd, a gall trigolion fanteisio ar y gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella lles ac ansawdd bywyd yr unigolyn.

Wrth ddatblygu ein Strategaeth Gymunedol, buom yn ymgynghori'n helaeth er mwyn sicrhau bod cymunedau a sefydliadau lleol yn helpu i lunio ein canlyniadau blaenoriaeth. Cynhaliwyd cynhadledd Fforwm Gwasanaethau Lleol gan wahodd nifer o fudd-ddeiliaid amrywiol a chynnig gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc, a buom yn ymgynghori â thrigolion y Fro drwy Banel y Dinasyddion, Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn a holiadur ar-lein.

Mae'r pum prif bartneriaeth yn gyfrifol am fonitro, adolygu a phwyso a mesur cynnydd, a byddant yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lwyddiannau a meysydd sy'n achosi pryder. Bydd arolwg yn cael ei lunio bob blwyddyn ar y Strategaeth, a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r prif bartneriaethau. Cyflwynir adroddiadau i'r partneriaethau'n rheolaidd ar gynnydd yn ôl y cynllun darparu a mesurau perfformiad perthnasol. Cynhelir Fforwm Gwasanaethau Lleol bob blwyddyn, er mwyn pwysu a mesur cynnydd a chynnig adborth. Cewch ddarllen [Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg](#) ar wefan y Cyngor.

Cynllun Corfforaethol 2013 - 2017

Mae ein Cynllun Corfforaethol (2013-2017), a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013, yn egluro'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu gweld yn ystod y pedair blynedd nesaf. Cafodd ei lunio'n unol â fframwaith y strategaeth gymunedol, ac y mae'n dangos y camau y bwriadwn eu cymryd yn o gystal â gweithgareddau beunyddiol y Cyngor. Mae'r cynllun yn defnyddio'r strategaeth gymunedol fel man cychwyn ar gyfer sicrhau bod addewidion yn cael eu cyflawni a blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer y dyfodol yn cael eu nodi.

Rydym wedi nodi wyth canlyniad blaenoriaeth, ac y mae nifer o amcanion wedi'u rhestru o dan bob un o'r rhain sy'n egluro'r prif ymrwymadau a gweithgareddau y byddwn yn ymgynghori atynt yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys cofnod manwl o'r camau gweithredu, yr adnoddau, yr amserlenni a'r atebolrwydd sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion cenedlaethol a lleol perthnasol sy'n ein helpu i fesur ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion gwella a sicrhau'r canlyniadau blaenoriaeth. Cewch weld y [Cynllun Corfforaethol](#) yn ei grynsyth ar wefan y Cyngor.

Bydd llawer o wasanaethau'r Cyngor yn helpu i sicrhau mwy nag un o'r canlyniadau blaenoriaeth a restrwyd isod, ac y mae'n bwysig deall bod pob blaenoriaeth sy'n cael ei chyflawni'n gam tuag at gyflawni rhai eraill. Mae rhai themâu fel cynaliadwyedd, gwella iechyd, a sicrhau gwasanaethau hygyrch yn berthnasol i bob un o'n canlyniadau blaenoriaeth a ddiffinnir fel a ganlyn:

1. Gall dinasyddion y Fro fanteisio'n hawdd ar wasanaethau sy'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn darparu'n benodol ar eu cyfer. Gallant ymddiried yn ein ffordd o ddod i benderfyniadau, ac y maent yn falch o fyw yn y Fro.
2. Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn eu cymunedau, yn cael eu cefnogi ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd mewn bywyd sy'n codi'n lleol ac ymhellach i ffwrdd.
3. Mae gan ddinasyddion y Fro'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud y gorau o bob cyfle.
4. Mae gan Fro Morgannwg economi ffyniannus sy'n cynnal cymunedau cysylltiedig a chynaliadwy.
5. Bydd y genhedlaeth bresennol o drigolion ac ymwelwyr a chenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau amgylcheddau adeiledig a naturiol y Fro ac yn cymryd camau ymarferol i'w gwarchod a'u cynnal.

6. Caiff trigolion y Fro fanteisio ar dai fforddiadwy o safon a chyngor a chymorth wrth ymdrin â thai.
7. Mae dinasyddion y Fro'n heini ac yn iach ac yn gydradd o ran eu hamgylchiadau economaidd, ac o'u cynorthwyo a'u diogelu'n briodol, bydd aelodau mwyaf bregus ein cymuned yn cael manteisio i'r eithaf ar bob cyfle mewn bywyd.
8. Mae trigolion a dinasyddion y Fro'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Bydd gweithrediad y Cynllun Corfforaethol yn cael ei fonitro bob chwarter yn unol â threfniadau rheoli perfformiad cynhwysfawr y cyngor drwy nifer o fforymau, gan gynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol, pwyllgorau craffu a'r cabinet.

Bydd yr wyth canlyniad blaenoriaeth yn cael eu dwyn ymlaen a'u hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau cysondeb ac unplygrwydd. Mae'r amcanion o dan y gwahanol ganlyniadau blaenoriaeth wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth perthnasol, ac yn sail i'r prif gamau a ddaw â'r amcanion hynny i ben.

Bydd o leiaf un cam gweithredu'n cael ei roi mewn cynllun gwasanaeth am bob amcan yn y Cynllun Corfforaethol. Serch hynny, y mae cwmpas ambell i amcan - 'gwella ymgynghori' neu 'weithredu'r cynllun rheoli carbon' er enghraifft - yn ehangach na'r rhelyw, a bydd yn rhaid cynnwys nifer o wahanol gamau gweithredu mewn llawer o gynlluniau gwasanaeth. Mae hyn yn adlewyrchu rychwant y gweithgarwch a fydd yn ofynnol er mwyn dod â'r amcan penodol i ben.

Mae gan bob amcan, aelod arweiniol o'r cabinet i'w hyrwyddo, cyfarwyddwr i sicrhau bod yr holl gamau gwella'n cael eu cyflawni a swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am weithredu'r amcan.

Amcanion Gwella 2015 – 2016

Er y byddwn yn ymdrechu'n gyson i wella ein gwasanaethau, y mae'n bwysig i ni nodi nifer bach o feysydd ar gyfer sylw penodol, er mwyn cael dod â gwelliannau sylweddol yn gynt. Adwaenir y meysydd hyn fel amcanion gwella.

Dyma restr o'r meysydd penodol a ddewiswyd yn Amcanion Gwella i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Seiliwyd ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2015-2016 ar:

- ganlyniadau blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol;
- ein cynnydd gyda'r amcanion gwella presennol;
- ein Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2016;
- ein proses flynyddol ar gyfer cynllunio gwasanaethau;
- wybodaeth am berfformiad gwasanaethau'r cyngor ac ymateb cwsmeriaid pan fydd ar gael;
- ein risgiau corfforaethol;

- ddarganfyddiadau arolygon gwella ac adroddiadau eraill oddi wrth ein rheolyddion.

Mae darganfyddiadau gwaith ymgynghori cyfredol y cyngor hefyd wedi'u hystyried. Rydym wedi gwahodd rhai â diddordeb penodol yn y maes, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, cynghorau tref a chymuned a sefydliadau gwirfoddol i wneud sylwadau ar yr amcanion a gynigiwyd. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r amcanion drwy arolwg ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd ein hamcanion gwella eu harchwilio a'u herio hefyd gan aelodau etholedig.

Penderfynwyd ar bum Amcan Gwella ar gyfer 2015-2016 sef:

1. [Darparu gwasanaethau cynaliadwy a hefyd gynnig dulliau gwahanol o gyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o'n Rhaglen o Newid drwy Ail-Iunio Gwasanaethau.](#)
2. [Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.](#)
3. [Cynnal a gwella canol trefi'r Fro er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.](#)
4. [Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.](#)
5. [Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.](#)

Mae tri o'r amcanion (2, 3 a 4 uchod) wedi'u dwyn ymlaen o'r llynedd, ac yr ydym wedi diwygio amcan 5 er mwyn dangos maes y byddwn yn gwneud rhagor o waith arno'n benodol yn ystod 2015-16.

Mae'r pum maes wedi'u hegluro'n fwy manwl ar dudalennau 9-28. Mae fframwaith, canlyniadau disgwylidig, camau gweithredu angenrheidiol a dull o fesur cynnydd wedi'u nodi ar gyfer pob amcan.

Byddwn yn gweithredu ein hamcanion gwella drwy gynlluniau gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y camau a threfniadau a'r adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd sy'n berthnasol i'r broses weithredu. Caiff y cynlluniau gwasanaeth eu monitro bob chwarter drwy nifer o fforymau, gan gynnwys pwyllgorau craffu a'r cabinet. Bydd adroddiad bob chwe mis ar ein cynnydd o safbwynt gweithredu'r amcanion hefyd yn cael ei gyflwyno i'r tîm rheoli corfforaethol a'r cabinet.

Cyhoeddi ein Hamcanion Gwella

Bydd yr amcanion gwella ar gyfer 2015 - 2016 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor, sef www.valeofglamorgan.gov.uk cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill 2015 yn unol â'r gofynion statudol. Caiff aelodau o'r cyhoedd hefyd weld y wybodaeth hon yn swyddfeydd a llyfrgelloedd y cyngor a gwneud sylwadau ar yr amcanion drwy anfon neges i : improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Mae ein cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys y camau a threfniadau a'r adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd sy'n berthnasol i'r broses o weithredu'r amcanion gwella. Bydd y Cynlluniau Gwasanaethau drafft ar gyfer 2015 - 2016 i'w gweld ar ein gwefan o Fawrth 2015 ymlaen.

Adolygu ein cynnydd ac adrodd am gynnydd

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd arnom i gyhoeddi amcanion gwella. Mae'n bwysig i ni adolygu ein cynnydd a chyflwyno adroddiadau i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, a'r hyn y dylid ei wella. Bydd pwyllgorau craffu'r cyngor yn archwilio cynnydd ein meysydd gwella bob chwarter gan ddefnyddio tystiolaeth o bob math yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad. Cewch weld ein hadroddiadau chwarterol ar berfformiad gwasanaethau a gyhoeddwyd ym Medi (chwarter 1); Rhagfyr (chwarter 2); Mawrth (chwarter 3); a Gorffennaf (chwarter 4) ar wefan y cyngor.

Yn ogystal â chyhoeddi ein hamcanion gwella ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd mis Hydref er mwyn rhoi darlun cyflawn o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd hefyd yn egluro i ba raddau y llwyddwyd i sicrhau'r canlyniadau a oedd wedi'u bwriadu. Ail ran y Cynllun Gwella fydd honno. Cyflwynwn adroddiad ar ein perfformiad yn ôl amcanion gwella 2015-2016 yn Hydref 2016.

Bod yn rhan ohoni

Ein panel dinasyddion yw Barn y Fro, a thrwy ymaelodi â'r panel, cewch gyfrannu i'r ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan y cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, neu ar eu rhan.

Os oes gennych ymholiadau ac yr hoffech ymaelodi â Barn y Fro, dylech anfon neges i consultation@valeofglamorgan.gov.uk neu lenwi'r [ffurflen fer ar-lein](#).

Bydd holl ymgynghoriadau cyfredol y cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y tudalennau [ymgyngori](#) a chewch wybod yn y fan honno sut i fynd ati i gyfrannu.

Cewch hefyd gyfrannu drwy fynychu pwyllgorau craffu'r cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ymwneud â gweithgareddau'r cyngor. Mae cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Am ragor o wybodaeth anfonwch neges at J.E. Rees yn Nhîm Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau i gyfeiriad JERees@valeofglamorgan.gov.uk.

Cewch gynnig amcanion gwella newydd neu wneud sylwadau ar y rhai presennol drwy anfon neges i'r cyngor i gyfeiriad: improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Fframwaith ar gyfer Amcanion Gwella 2015-16

Amcan 1	<u>Darparu gwasanaethau cynaliadwy a hefyd gynniig dulliau gwahanol o gyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o'n Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau.</u>
----------------	--

Swyddog Arweiniol	Siân Davies
--------------------------	--------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Y Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau yw ymateb ymarferol Cyngor Bro Morgannwg i'r llymder a orfodwyd arno gan y llywodraeth ganolog, a'r cyfnod o gyfyngu ar arian cyhoeddus a ddaeth yn ei sgil na welwyd ei debyg erioed o'r blaen.
- Mae cyllideb y Cyngor o dan bwysau ers nifer o flynyddoedd, a bu'n rhaid arbed £28.8 miliwn rhwng 2010/11 a 2014/15. Bydd yn rhaid arbed swm sylweddol unwaith eto yn ystod 2015/16 ac yn ystod 2017/18. Bydd dros £7 miliwn i'w harbed yn ystod 2015/16 yn ôl y rhagamcanion diweddaraf, a rhyw £24,6 miliwn i gyd yn ystod y tair blynedd nesaf. Nid oes hawl i'r Cyngor fethu ag arbed yr arian hwn chwaith.
- Ar yr un pryd, y mae'r galw am wasanaethau, a disgwyliau defnyddwyr o safbwynt cyfleustra, safon ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny'n cynyddu ar hyd yr amser. Gan hynny, ni fydd yn bosibl cynnal yr un lefel o wasanaeth na defnyddio'r un modelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Yr her fydd ceisio dod o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau ar draws y Cyngor, er mwyn lleihau effaith y toriadau a sicrhau y gellir cynnal pob gwasanaeth blaenoriaethol. Wrth wneud hyn, bydd yn rhaid i ni hefyd bwysu a mesur yr holl oblygiadau o safbwynt cydraddoldeb er mwyn gallu trin unrhyw ddiffyg cydraddoldeb tebygol mor effeithiol ag sy'n bosibl.
- Mae'r perygl o fethu â chynnal gwasanaethau i safon dderbyniol yng ngoleuni'r cyfyngu ar nawdd yn cael ei gydnabod yng nghofrestr risg gorfforaethol yr awdurdod fel risg gymharol uchel. Mae'r perygl o fethu â rheoli'r agenda gydweithio hefyd yn cael ei gydnabod fel risg gorfforaethol ac wedi'i gofnodi fel risg ganolig.
- Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau sy'n ystyried newid dulliau gweithredu'r Cyngor yn sylfaenol drwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau ac ymwneud â thrigolion, defnyddwyr a sefydliadau partner. Mae cynllun gweithredu'r rhaglen yn egluro prif gamau'r prosiect ac yn darparu ar gyfer cwblhau'r swp cyntaf o brosiectau erbyn Mawrth 2016. Bydd sypiau eraill o brosiectau'n dilyn wedyn fel rhan o raglen dreiglol.
- Y gwasanaethau sydd i'w trafod yn y swp cyntaf o arolygon gwasanaethau (a drefnwyd ar gyfer Chwefror 2015) yw: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant; Arlwygo; Priffyrdd; TGaCh; Cynllunio a Chynnal a Chadw Adeiladau (sy'n cynnwys cynnal a chadw cynlluniedig ac ymatebol; Safonau Ansawdd Tai Cymru a Storfeydd yr Alpau). Yn ogystal â'r prosiectau hyn sy'n canolbwyntio ar wasanaethau'n bennaf, trefnwyd 'ffrwd waith prosiectau corfforaethol' er mwyn manteisio ar gyfleoedd sy'n gofyn am ymateb corfforaethol. Prosiectau yn y ffrwd waith hon fydd unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar y cyd â chynghorau tref a chymuned a

phrosiectau sy'n ymdrin â materion fel gwario effeithiol, rheoli galw a chynhyrchu incwm. Bydd pob prosiect cyngor presennol sy'n gydnaws ag amcanion y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau hefyd yn cael ei reoli o fewn y Rhaglen. Enghreifftiau o'r rhain yw Rhaglen Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r arolwg corfforaethol ar gludiant.

- Gwnaethpwyd y trefniadau canlynol ar gyfer rheoli'r Rhaglen:
 - Bydd Bwrdd Rhaglenni'n rheoli pob agwedd ar y rhaglen yn gyffredinol. Bydd y Bwrdd yn cynnwys yr Arweinydd, Tîm Rheoli Corfforaethol, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro. Y Rheolwr-gyfarwyddwr fydd Noddwr y Rhaglen. Cyfarwyddwyr unigol fydd yn rheolwyr-gyfarwyddwyr wrth drafod arolygon/prosiectau unigol.
 - Pwyllgor Craffu Adnoddau Dynol fydd y pwyllgor arweiniol ar gyfer Ail-lunio Gwasanaethau, a bydd yn rhaid i gynigion am waith ail-lunio unigol hefyd gael eu harchwilio'n rheolaidd gan y pwyllgor(au) craffu perthnasol tra pery'r rhaglen.
 - Grŵp amlddisgyblaethol o swyddogion, gan gynnwys cynrychiolwyr o swyddogaethau polisi canolog, adnoddau dynol, cyllid, materion cyfreithiol a gwella busnes, a fydd yn cefnogi'r gweithgareddau sy'n ymwneud ag adolygu gwasanaethau a rheoli'r rhaglen. Bydd y grŵp hwnnw'n cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Rhaglenni, y Cabinet ac eraill yn rheolaidd gan olrhain a monitro'r ffordd y bydd prosiectau a gweithgareddau'r rhaglen yn cael eu cyflwyno. Byddwn yn chwilio am gyngor ac adnoddau allanol pan fydd hynny'n briodol ac yn croesawu cyfraniad (dielw) oddi wrth y trydydd sector yn ogystal â chyngor gan arbenigwyr.
- Cydnabyddwn fod y materion y mae strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n eu codi'n newydd i lawer o aelodau etholedig a swyddogion a phartneriaid y Cyngor. Diben y rhaglen yw cael hyd i ffyrdd hollol wahanol o ddarparu gwasanaethau, a bydd hynny'n golygu newid holl ddiwylliant y Cyngor. Bydd angen cynnal 'gweithgareddau datblygu sefydliad' er mwyn symud y materion hyn yn eu blaen a sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid yn cael meithrin y sgiliau priodol.
- Bydd cyfathrebu ac ymgynghori'n hanfodol i'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'n gyffredinol a'r prosiectau unigol. Lluniwyd cynllun cyfathrebu ar gyfer y rhaglen ei hun a bydd prosiectau unigol yn datblygu cynlluniau hefyd wrth i'r gwaith symud yn ei flaen.

Canlyniadau

- Ymgorffori'r Strategaeth Ail-lunio mewn cynlluniau corfforaethol a chynlluniau ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau'r Cyngor.
- Bydd gan y Cyngor fwy o allu ac adnoddau mewnol i lunio gwasanaethau, cael hyd i wasanaethau a rheoli gwasanaethau ar y cyd â darparwyr eraill ar gyfer y cyhoedd.
- Cydweithio'n amlach â phartneriaid a chomisiynu a darparu gwasanaethau blaenoriaethol mewn ffordd arloesol.
- Arbed costau ac arbed arian drwy weithredu'n effeithiol wrth ddilyn gwell arferion ar gyfer gweithio a rheoli, a gwell dulliau o fesur perfformiad. Bydd arbedion yn sgîl gweithredu'r swp cyntaf o brosiectau i'w gweld o 2016/17 ymlaen.
- Bydd defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ar eu hennill.
- Bydd mwy o gyfle i ddefnyddwyr helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

Yn ystod 2015/16, bydd gweithredwyr y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'n:

- Dechrau adolygu meysydd gwasanaeth y swp cyntaf o brosiectau yn y rhaglen, drwy ddogfennu achosion busnes er mwyn pwysu a mesur yr holl gyfleoedd sydd ar gael ym mhob maes.
- Dechrau gweithio ar 'ffrwd waith' y prosiectau corfforaethol, er mwyn gallu ymateb ar lefel gorfforaethol i faterion sy'n ymwneud â rheoli galw, gwario effeithiol, cydweithio â chynghorau tref a chymuned a chynhyrchu incwm.
- Ymgymryd â gweithgareddau datblygu sefydliadol er mwyn cefnogi'r rhaglen a'i phrosiectau.
- Adolygu cymwyseddau rheoli ac arwain a'r angen cynyddol am sgiliau comisiynu, contractio, cydweithredu a rheoli prosiectau.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Prif gerrig milltir prosiectau ar gyfer 2015/16	2012/13 Perfformiad	2013/14 Perfformiad	2013/14 Cyfartaledd Cymru	2014/15 Targed	2014/15 Perfformiad Ch.3 / Blynyddol	2015/16 Dyddiad cyrraedd y Targed
Cael caniatâd y Cabinet i symud y swp cyntaf o brosiectau ymlaen i gam 2.						28/2/15
Cwblhau cam 2 o'r gwaith datblygu achosion busnes ar gyfer y swp cyntaf o brosiectau.						31/8/15
Trefnu i'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu gael golwg ar achosion busnes y swp cyntaf o brosiectau.						30/11/15
Gweithredu'r prosiectau a gymeradwywyd.						31/7/16

Amcan 2	Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Phil Evans
--------------------------	-------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae problemau poblogaeth sy'n heneiddio, diffyg arian cyhoeddus, costau cynyddol a disgwyliau newidiol pobl sy'n gofyn am gymorth i gyd wedi creu mwy a math gwahanol o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Erbyn 2020, rhagwelwn y bydd cynnydd o 28% yn y gyfran o boblogaeth y Fro sy'n 65 oed ac yn hŷn na hynny. Yn ystod yr un cyfnod, y mae disgwyl hefyd i'r cyngor wario llai'n gyffredinol ar wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod mwy fyth o angen am wasanaethau prydlon ac ymatebol sy'n darparu ar gyfer union anghenion a dewision pobl.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod ers tro byd bod angen cydbwysu gofal yn fwyfwy o blaid cymorth yn y gymuned os yw am i wasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion fod yn gynaliadwy. Mae'n dal yn brif flaenoriaeth felly i'n gwasanaethau gydweithio â'i gilydd a'n partneriaid er mwyn helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu tai eu hunain. Deuir i ben â hyn drwy drefnu gwasanaethau yn y gymuned a chymorth i ofalwyr a thrwy ymdrechu i alluogi pobl yn hytrach na'u cynnal â phecynnau gofal hirdymor.
- Dygwyd yr amcan hwn ymlaen o 2014/15 er mwyn dangos y ddyletswydd gynyddol sydd ar y Cyngor i ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion y gellir ei gynnal.
- 269 o bobl a gafodd gymorth Teleofal unigol eleni o'u cymharu â 254 y llynedd. 394 o bobl hŷn a gafodd gymorth gofal preswyl/nyrsio eleni o'u cymharu â 427 y llynedd. Dengys y data ar gyfer tri chwarter cyntaf 2014/15, fod nifer y bobl 75 oed ac yn hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd er eu bod yn iach, yn dal yn yr ysbyty am nad oedd gofal ar eu cyfer yn y gymuned, hefyd gryn dipyn yn llai nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd.
- Mae mwy o bobl o hyd yn manteisio ar wasanaethau Teleofal, gyda 569 o becynnau'n cael eu gweithredu erbyn hyn o'u cymharu â 486 yn 2014. Rydym hefyd wedi trefnu mwy o becynnau TeleV+ - sef 118 eleni o'u cymharu â'r 111 a oedd yn cael eu gweithredu ar ddiwedd 2014. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi archwilio'r defnydd o Deleofal, yn enwedig o safbwynt cynorthwyo rhai sy'n dioddef o ddementia a bydd yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion ym mis Chwefror.
- Yn ôl asesiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol (a gynhaliwyd ym mis Hydref 2014), bu'r cynnydd yn dda'n gyffredinol.
- Gwnaethom gynnydd da drwy ddefnyddio adnoddau ychwanegol o Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a Chronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru i helpu mwy o bobl i fanteisio ar wasanaethau ailalluogi ac adfer. Mae gwaith ail-lunio gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y gymuned yn symud yn ei flaen yn hwylus yn ôl y cynllun, a dechreuwyd gweithredu trefniadau mwy integredig eisoes. Serch hynny, bydd yn dipyn o her i'r Cyngor barhau i sicrhau cynnydd yng ngoleuni'r toriadau sylweddol yn y

ddwy ffrwd gyllido am y bydd hynny'n effeithio ar ein gallu i gydweithio'n effeithiol.

- Mae Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn yn egluro sut i sicrhau y caiff pobl gymorth priodol i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl am gyhyd ag y bo modd. Lluniwyd cynllun dementia ar y cyd â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Caerdydd. Drwy ddefnyddio broceriaid o'r sector gwirfoddol sy'n gweithio yn y Ganolfan Gyswilt newydd integredig a'r Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol, yr ydym yn hwyluso'r defnydd o wasanaethau cymunedol sy'n helpu pobl hŷn (gan gynnwys cleifion dementia o bob math), i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar y cyd â phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y sector gwirfoddol a Chyngor Caerdydd. Y nod yw gweithredu modelau gofal mwy integredig, cynnig gwasanaethau di-dor nad ydynt yn dibynnu gymaint ar fodelau meddygol ac ymateb yn gyflym o fewn cyfyngiadau amser penodol.

Canlyniadau

- Mae pobl yn cael cymorth effeithiol i fyw'n fwy annibynnol.
- Mae'n haws i bobl ym mhob rhan o'r Fro fanteisio ar wybodaeth a gwasanaethau sy'n hybu iechyd corfforol ac emosiynol.
- Mae pobl yn gwybod am fudd-daliadau a'r opsiynau sydd ar gael wrth drafod arian.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Annog mwy o bobl i wneud defnydd o dechnoleg gynorthwyol fel Teleofal sy'n helpu pobl hŷn a gofalwyr i reoli effaith salwch hirdymor a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag ef.
- Sicrhau ei bod yn haws manteisio ar wasanaethau ailalluogi ac adfer sy'n helpu pobl hŷn mewn argyfwng. Rydym wedi defnyddio arian o Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a Chronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru i ymestyn y gwasanaeth y mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn ei ddarparu.
- Cydweithio â'r Trydydd Sector a sefydliadau busnes er mwyn cael hyd i ffordd ataliol a chymunedol o helpu pobl hŷn – gan gynnwys cleifion dementia o bob math - i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Sefydlu timau asesu a rheoli gofal cymdeithasol ac iechyd integredig ar gyfer ein holl wasanaethau i oedolion ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dechreuwyd llunio fframwaith asesu a rheoli gofal integredig eisoes sy'n darparu ar gyfer cyfeirio a sgrinio a chynnig gwasanaeth yn gyflym.

¹ Gwasanaeth larwm sensitif yw Tele V sy'n gweithredu bob awr o'r dydd a'r nos am 365 diwrnod y flwyddyn er mwyn cadw pobl yn fwy diogel a thawel eu meddwl a galluogi rhai bregus i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2012/13 Perfformiad	2013/14 Perfformiad	2013/14 Cyfartaledd Cymru	2014/15 Targed	2014/15 Perfformiad Ch.3 / Blynyddol	2015/16 Targed
Achosion Teleofal sy'n weithredol ar hyn o bryd:						
Tele V	179	200		225	608	heb ei osod
Tele V+	90	100		120	126	heb ei osod
Nifer y diwrnodau calendr a dreuliyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau pobl anabl ar gyfer oedolion.	337 o ddiwrnodau	268 o ddiwrnodau	239 o ddiwrnodau	245 o ddiwrnodau	201 o ddiwrnodau	195 o ddiwrnodau
Nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd yn cael cymorth yr awdurdod i fyw mewn cartref gofal ar 31 March.	16.96	14.74	19.84	16	14.90	heb ei osod
Nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd yn cael cymorth yr awdurdod i fyw yn y gymuned ar 31 March.	47.66	47.49	74.48	50	46.74	heb ei osod
Nifer y bobl 75 oed ac yn hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd er eu bod yn iach yn dal yn yr ysbyty am nad oes gofal ar eu cyfer yn y gymuned.	6.60	8.17	4.70	5.5	3.12	heb ei osod
Canran yr oriau o ofal yn y cartref y dylid eu gostwng ar ôl cyfnod o ail-alluogi drwy Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro.					26.29%	heb ei osod

² Cyflwynwyd data Ch.3. Bydd y perfformiad a'r targedau blynyddol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn a'u diwygio fel y bo'n briodol.

³ Heb ei osod: mae'n rhaid i ni aros am y data diwedd blwyddyn cyn y medrwn osod targedau.

Amcan 3**Cynnal a gwella canol trefi'r Fro er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.****Swyddog
Arweiniol****Rob Thomas****Fframwaith yr amcan hwn**

- Ni fu prif ganol trefi'r Fro'n ddiogel rhag effaith y dirwasgiad economaidd na dylanwad yr archfarchnadoedd a godwyd ar gyrion sawl tref yn yr ardal ac ymhellach i ffwrdd. Er i'r hinsawdd economaidd gyfyngu ar rai o'n trefniadau ar gyfer adfywio sydd wedi'u hegluro yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17, y mae'r Cyngor yn benderfynol o barhau i ddatblygu ei brif ganol trefi wrth i gyflwr yr economi wella.
- Yn ystod 2014, gofynnwyd i drigolion y Fro fynegi barn am ganol trefi'r Fro y buont yn ymweld â hwy, a dyma'r prif ddarganfyddiadau:
 - Roedd gan y cyhoedd lawer mwy o olwg ar Y Bont-faen a Llanilltud Fawr na threfi eraill yn y Fro. Mwy na 9 o bob 10 o ymwelwyr a deimlai fod cyflwr canol y trefi hyn un ai'n dda iawn neu'n weddol dda (sef 98% yn y naill achos a 94% yn y llall). Penarth a farnwyd yn drydedd orau, gyda 89% o ymwelwyr yn teimlo bod canol y dref un ai'n dda neu'n weddol dda. Mewn cyferbyniad â hyn, yr oedd y farn am Y Barri dipyn yn fwy cymysg. Er bod gan y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd farn weddol bositif am y dref, yr oedd rhai'n teimlo bod canol Y Barri un ai'n eithaf gwael neu'n wael iawn (38% a deimlai felly am Heol Holton a 41% am y Stryd Fawr/Broad Street). Pan ofynnwyd i ymatebwyr egluro pam y teimlent fod canol y dref yn 'wael', y rhesymau a gynigiwyd amlaf oedd 'mae golwg wedi'i esgeuluso arno', 'mae dewis gwael o siopau' neu 'mae gormod o siopau elusen'.
 - Roedd yr ymatebwyr yn barod iawn i gymeradwyo hygyrchedd canol trefi serch hynny, gyda 9 o bob 10 yn dweud bod gwasanaethau bysiau a'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr un ai'n dda iawn neu'n weddol dda yn yr ardaloedd hyn. Teimlent hefyd bod y trefi hyn (ac eithrio'r Bont-faen, wrth reswm, am nad oes gorsaf drenau yn y fan honno) yn hawdd eu cyrraedd ar y trê. Ymateb cymysg a gafwyd pan holwyd am y ddarpariaeth ar gyfer seiclwyr gyda 9 o bob 10 (87%) yn teimlo ei bod un ai'n dda iawn neu'n weddol dda yn Llanilltud Fawr ond 55% yn unig yn ei chymeradwyo i'r un graddau yn Y Barri (Y Stryd Fawr/Broad Street). Roedd ymatebwyr dipyn yn fwy beirniadol am gyfleusterau parcio yng nghanol trefi yn enwedig ym Mhenarth a'r Barri.
 - Gyda golwg ar nodweddion penodol canol trefi, Y Bont-faen, ym marn yr ymatebwyr, yw'r dref orau o safbwynt arwyddion eglur, glendid a chynnal a chadw cyffredinol, ansawdd a gwedd offer stryd, blaenau siopau a hysbysebion deniadol, blodau a gwyrddni a'r amrywiaeth a'r dewis o siopau. Llanilltud Fawr, Penarth a'r Barri oedd yr ail, y drydedd a'r bedwaredd orau yn hynny o beth.
- Cymerwyd camau yn Y Barri eisoes i wella blaenau siopau ac adfer etifeddiaeth adeiladol yn y stryd fawr drwy ddechrau defnyddio lloriau uwch rhai o'r adeiladau unwaith eto. Rydym hefyd yn ymdrechu i wella'r olwg ar y strydoedd a denu pobl yn ôl i ganol y dref drwy ddarparu dewis addas o dai fel rhan o Ardal Adnewyddu Castleland e.e. Tŷ Crawshay yn Stryd Merthyr sydd newydd ei gwblhau.

- Bu partneriaeth adfywio'r Cyngor, Cymunedau Gwledig Creadigol, eisoes yn cefnogi gwaith gwella yng nghanol trefi yn y Fro Wledig, ac y mae'n cydweithio â phob math o grwpiau rhanddeiliaid amrywiol erbyn hyn i sefydlu byrddau ardaloedd er mwyn hybu gwaith gwella.
- Mae cyfraniad y sector preifat yn hanfodol ar gyfer gwella canol trefi, ac erbyn hyn, y mae gan Waitrose archfarchnad newydd yng nghanol tref Y Bont-faen. Yn Y Barri, y mae hen safle'r llys ynadon yn cael ei ddatblygu i gynnwys tai cymysg a busnesau.
- Mae cynigion a fydd yn gwella manau cyhoeddus a dulliau o reoli traffig yn Broad Street a Stryd Fawr Y Barri'n sylweddol yn cael eu prosesu ar hyn o bryd.
- Mae Cynllun Gwaith Cyrchfannau wedi cael ei lunio a'i fabwysiadu fel offeryn twristiaeth sy'n cynnwys rheoli a gwella canol trefi fel rhan o'i orchwyl gwaith.
- Bydd y Swyddog Datblygu Canol Trefi'n cynorthwyo canol trefi ar draws y Fro ar y cyd â phrif randdeiliaid fel adwerthwyr, busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd i gyd â diddordeb yng nghanol eu trefi eu hunain.
- Mae rhyw drydedd ran o'r Barri erbyn hyn yn rhan o Glwstwr Cymunedau'n Gyntaf Y Barri, gan gynnwys canol y dref. Ar drothwy Nadolig 2014, cafwyd nawdd i gynnal marchnadoedd yn Y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr fel arbrawf. Roedd y digwyddiad Nadoligaidd yn Y Barri'n llwyddiant ysgubol a denwyd llawer o bobl i Sgwâr y Brenin ar gyfer sioe oleuadau dymhorol.

Canlyniadau

- Creu canol trefi mwy bywiog ac ymarferol.
- Lleihau nifer y lleoedd gwag mewn unedau masnachol.
- Buddsoddi mwy o arian mewn adeiladau yng nghanol trefi drwy gymorth grant.
- Cynnig mwy o dai addas.
- Gwella'r amgylchedd adeiledig.
- Creu busnesau mwy hyderus.
- Creu mwy o ffyniant.
- Gwella delwedd canol trefi.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Byddwn yn parhau i gydweithio â phrif randdeiliaid yng nghanol trefi'r Fro er mwyn gweithredu'r Fframwaith Canol Trefi.
- Byddwn yn gweithredu Cynllun Gwaith Cyrchfannau.
- Byddwn yn cydweithio â grŵp Ardal Gwella Busnes Penarth (cynhaliwyd pleidlais ar 15 Mawrth).

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2012/13 Perfformiad	2013/14 Perfformiad	2013/14 Cyfartaledd Cymru	2014/15 Targed	2014/15 Perfformiad Ch.3 / Blynyddol	2015/16 Targed
Canran yr unedau adwerthu gwag ym mhrif ganolfannau siopa'r Fro ar gyfartaledd.	8%			7.8%	8.9% (blynyddol)	8%
Canran yr unedau adwerthu gwag yng nghanol tref Y Barri, Heol Holton, ar gyfartaledd	10%			9%	13.3% (blynyddol)	11%
Canran yr unedau adwerthu gwag yn Y Bont-faen.	2%			2.5%	7.8% (blynyddol)	5%
Canran yr unedau adwerthu gwag yn Heol Windsor, Penarth.	2.5%			2.5%	4.9% (blynyddol)	3.5%
Canran yr unedau adwerthu gwag yn Broad Street/Stryd fawr Y Barri.	11.10%			10.8%	10.0% (blynyddol)	9%
Canran yr unedau adwerthu gwag yn Llanilltud Fawr.	2.60%			2.5%	9.0% (blynyddol)	8%
Nifer y blociau yn Heol Holton Uchaf a gafodd gynnig grant ar gyfer eu gwella.				4	9	1 (hwn fydd y bloc diwethaf i gael ei dargedu yn yr ardal adnewyddu)
Nifer y trigolion sy'n credu bod canol Y Barri un ai'n dda neu'n rhagorol o safbwynt dengarwch cyffredinol.				Sefydlu llinell sylfaen	76%	Arolwg bob dwy flynedd
Canran y trigolion yn yr arolwg sy'n credu bod canol ein trefi'n fannau deniadol i ymwelwyr a siopwyr.				Sefydlu llinell sylfaen	76%	Arolwg bob dwy flynedd

⁴ Cyflwynwyd data Ch.3. Bydd y perfformiad a'r targedau blynyddol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn a'u diwygio fel y bo'n briodol.

Amcan 4	Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant
----------------	--

Swyddog Arweiniol	Jennifer Hill
--------------------------	----------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae 'lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' yn brif flaenoriaeth genedlaethol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth ar gyfer cyflawni hynny wedi'i hegluro yng Nghynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2013-2015. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith hwnnw yn Hydref 2013 er mwyn cael targedu'r bobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn a'r rhai sydd eisoes yn cael eu diffinio felly. Mae Fframwaith Ymgysylltu ag Ieuenctid y Fro a ddefnyddir i nodi plant yn y categori hwn, eisoes wedi'i fabwysiadu gan holl ysgolion a phartneriaid y Cyngor, ac yn cael ei ystyried yn ymarfer da gan Lywodraeth Cymru.
- Byddwn yn cydweithio ag amryw o wahanol asiantaethau, gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant a'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc yn y categori hwn. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaethau mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori dan sylw, a hefyd yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn ac ar y we. Mae cael lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant, yn dibynnu i ryw raddau ar sicrhau bod nawdd cyson ar gael i bob math o wahanol asiantaethau. Mae ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol fel yr argyfwng ariannol byd-eang presennol hefyd yn cael cryn effaith ar nifer y bobl ifanc yn y categori hwn.
- Bu nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant yn disgyn yn gyson o flwyddyn i flwyddyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cyferbynnu'n eglur â'r ffigurau ar gyfer plant rhwng 19 a 24 oed sydd, oherwydd effaith andwyol yr argyfwng economaidd, yn parhau i godi nid yn unig ar draws Cymru ond ym mhob rhan o'r DU. Mae'n hanfodol bwysig felly i ni sicrhau bod gwell cyfle am waith a hyfforddiant gan bobl ifanc sydd ar fin pontio rhwng addysg amser llawn a byd gwaith. Yn y modd yma cawn ymyrryd i atal y cynnydd yn nifer y rhai dros 18 oed nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.
- Tynnodd arolwg Estyn 2013, sylw at y ffaith bod cyfran y dysgwyr dros 16 oed nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant, fymryn yn fwy nag yng Nghymru'n gyffredinol. Mae hefyd yn llawer uwch nag y byddech yn ei ddisgwyl wrth ystyried bod lefelau amddifadedd yn y Fro'n gyffredinol yn gymharol isel. Barnodd hefyd nad oedd cynlluniau'r cyngor ar gyfer cadw plant a phobl ifanc mewn gwaith neu addysg neu o dan hyfforddiant wedi bod yn ddigon effeithiol. Yn dilyn ei ymweliad monitro'n ddiweddar yn Hydref 2014, dywedodd Estyn fod y Cyngor bellach yn fwy medrus o safbwynt olrhain, nodi a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn. Dywedodd ei fod hefyd yn well o safbwynt cymryd camau priodol ac ymyrryd yn union lle bo angen yn yr ysgol. Oherwydd y gwaith hwn, bydd partneriaid yn dod i adnabod y rhai sy'n gwrthgilio'n gyflymach, ac yn gallu cadw gwell golwg ar y bobl ifanc y mae angen eu cynorthwyo a'u cefnogi er mwyn cynnal eu diddordeb.
- Dengys data perfformiad diweddar er y bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc ym mlynnyddoedd 11 a 12 nad ydynt mewn gwaith nac

addysg nac yn dilyn hyfforddiant fod lle o hyd i ostwng y nifer yn y categori hwnnw ym mlwyddyn 13.

- Ar hyn o bryd, y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn archwilio dulliau o wella sgiliau sylfaenol pobl ifanc yn yr ysgol, ac o ddefnyddio nawdd gwasanaethau cymorth ieuencid i gadw pobl ifanc rhag llithro i'r categori hwn. Ni ddylid disgwyl, serch hynny, y daw ymwared ar unwaith drwy ymyrryd yn gynnar. Nod y bydd yn rhaid i'r cyngor a'i bartneriaid ymgynraedd ato o dipyn i beth dros gyfnod o amser yn hytrach, yw lleihau nifer y plant sy'n llithro i'r categori hwn ar ôl ymadael â'r ysgol. Canolbwynt ein gwaith ar hyn o bryd yw adnabod y rhai mewn perygl, darparu ar eu cyfer, eu holrhain a'u monitro a chydweithio'n agos â phartneriaid wrth rannu data.
- Mae'r cyngor yn ymdrechu i gydweithio â phobl ifanc anodd eu cyrraedd, drwy ddatblygu prosiectau wedi'u targedu sy'n defnyddio darpariaeth deithiol, yn manteisio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn rhoi cymorth unigol mewn ysgolion. Mae wedi sefydlu panel 'ymgysylltu â phobl ifanc a'u datblygu a'u cadw' sy'n ymdrin â rhai sydd debycaf o ddisgyn i'r categori hwn. Mae'r panel yn cynnwys darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru, Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a Choleg Caerdydd a'r Fro.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau bod mwy o raglenni addysg amgen mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, a bod gweithwyr ymyrraeth gynnar ar gael wrth i blant bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Yn y modd yma, gall weithredu cyn gynted ag sy'n bosibl i rwystro rhai mewn perygl rhag llithro i gategori 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'.
- Bydd y Cyngor yn cydweithio ag adrannau mewnol a darparwyr hyfforddiant er mwyn cofnodi pobl ifanc yn Haenau 1 a 2⁵ nad yw eu statws yn hysbys. Mae hyn yn cynnwys rhai y gwyddys eu bod un ai wedi gadael yr ardal neu'n cael gofal mewn sefydliad troseddwr ifanc, canolfan hyfforddi ddiogel neu gartref plant a rhai sydd wedi gadael yr ardal ac yn cael gofal yn y sefydliadau hynny'n ogystal. Yn y modd yma gallwn sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo'n briodol.
- Mae Rhwydwaith Gweithwyr Arweiniol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn i ni allu rhannu gwybodaeth ac atgyfeirio pobl ifanc yn Haen 4 er mwyn cynnal eu diddordeb yn y tymor hir, a sicrhau y darperir yn briodol ar eu cyfer.

Canlyniadau

- Dod i wybod am bobl ifanc yn y categori hwn yn gynnar a chyfeirio gwasanaethau at y rhai mwyaf anghenus.
- Uno gwasanaethau er mwyn i bobl ifanc yn y categori hwn gael gwella eu sgiliau gwaith a'u sgiliau sylfaenol.

⁵ O dan y drefn ar gyfer mapio 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', y mae 'Haen 1' yn cynnwys rhai nad yw eu statws yn hysbys, a rhoddir llawer o bwyslais ar ymgysylltu â'r garfan honno. Newid agwedd y bobl ifanc o 'gyndyn i ymgysylltu' i 'yn barod i ymgysylltu' yw'r nod wrth ymdrin â Haen 2, a'u gyrru ymlaen wedyn i Haen 3 lle cânt addysg ychwanegol, cymorth gwaith a hyfforddiant, cyngor ac arweiniad wedi'u targedu'n ddwysach.

- Lleihau canran flynyddol pobl ifanc yn y categori hwn a gofnodwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Cymru.
- Lleihau canran y bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i addysg amser llawn yn 18 oed ac yn llithro i'r categori hwn.
- Dod i wybod yn gynnar am y rhai sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn, a rhoi cymorth penodol iddynt ar adegau pontio – e.e. wrth iddynt symud ymlaen at y ddarpariaeth ar gyfer rhai dros 16 oed.
- Sicrhau bod y ffigurau ar gyfer rhai sy'n llithro i'r categori yma ym mlwyddyn 11 a blwyddyn 12 yn aros yn isel.
- Sicrhau bod llai o bobl ifanc yn gadael yr ysgol, swyddi, cyrsiau addysg a chysiau hyfforddi'n gynnar.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Cydweithio â phartneriaid er mwyn gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu a sicrhau bod llai o blant yn llithro i'r categori hwn cyn ac ar ôl eu 18 oed.
- Datblygu'r Rhwydwaith Gweithwyr Arweiniol er mwyn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc Haen 4 sydd mewn gwaith neu addysg neu'n dilyn a hyfforddiant.
- Parhau i gydweithio â phartneriaid fel Coleg Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Gyrfa Cymru, Swyddogion Cefnogi Disgyblion ac ysgolion er mwyn targedu a thrin materion sy'n achosi'r pryder mwyaf.
- Gwneud y gorau o'r grantiau sydd ar gael drwy gydweithio â phartneriaid.
- Gwneud mwy o ddefnydd o'r sector gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant fel y bo mwy o gyfleoedd a darpariaeth a modd lleihau nifer y bobl ifanc yn y categori hwn..
- Datblygu pecynnau unigol drwy gymorth broceriaid a dod i wybod yn gynnar pa ddisgyblion ysgol a phlant dros 16 oed sydd debycaf o lithro i'r categori hwn.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2012/13 Perfformiad	2013/14 Perfformiad	2013/14 Cyfartaledd Cymru	2014/15 Targed	2014/15 Perfformiad Ch.3 / Blynyddol	2015/16 Targed
Lleihau: canran y bobl ifanc ym Mlwyddyn 13 y mae'n hysbys nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.	4.4%	4.8%	4.7%	4.2%	4.07% (annual)	4.2%
canran y bobl ifanc ym Mlwyddyn 12 y mae'n hysbys nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.	2%	2.02%	2.1%	1.95%	1.78% (annual)	1.9%

Dangosydd	2012/13 Perfformiad	2013/14 Perfformiad	2013/14 Cyfartaledd Cymru	2014/15 Targed	2014/15 Perfformiad Ch.3 / Blynyddol	2015/16 Targed
canran y bobl ifanc ym Mlwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. ⁶	3.9%	3.8%	3.7%	3.25%	2.76% (annual)	2.6
nifer y bobl ifanc sy'n cael sylw penodol gan: weithwyr cymorth/gweithwyr pontio ar gyfer pobl ifanc yn y categori hwn.		109		45	84	50
Canran y deg ward waethaf yn y Fro am ddiweithdra ymysg pobl ifanc a gafodd ymweliad gan hyfforddwyr dysgu a fu'n defnyddio'r ddarpariaeth deithiol.		100%		100%	100%	100%
Canran y rhai y cysylltwyd â hwy'n gyntaf drwy'r ddarpariaeth deithiol a aeth ymlaen wedyn i ymwneud â'r gwasanaeth er mwyn gwella eu rhagolygon gwaith.		40%		40%	33%	40%
Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd mewn gwaith neu addysg neu'n dilyn hyfforddiant.		95.65%		81%	86.7%	82%
Canran y bobl ifanc 19 oed a fu yng ngofal yr awdurdod gynt ac y sydd mewn cysylltiad â'r awdurdod o hyd, y mae'n hysbys eu bod mewn gwaith neu addysg neu'n dilyn hyfforddiant.	55.6%	44.4%	54.8%	52%	67.67%	54%

⁶ Cyflwynwyd data Ch.3. Bydd y perfformiad a'r targedau blynyddol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn a'u diwygio fel y bo'n briodol.

Amcan 5	Lleihau'r bwllch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Jennifer Hill
--------------------------	----------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 oedd un o brif argymhellion arolwg Estyn 2013.
- Sicrhawyd bod safonau'n codi yn 2013 a 2014 drwy weithredu Strategaeth Wella Cyfnod Allweddol 3 o 2012 ymlaen. Mae gwaith sylweddol yn dal i gael ei wneud yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 (yn unol ag Amcanion Gwella 2013/14 a 2014/15). Dangosodd data'n ddiweddar i ni lwyddo i leihau'r bwllch perfformio ym mhob maes yng nghyfnod allweddol 4 ac eithrio mewn perthynas â disgyblion sy'n cael a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Wrth symud ymlaen, y mae angen o hyd am wella perfformiad ar bob lefel.
- Yn sgîl gweithredu'r fframwaith herio a chefnogi rhanbarthol, y mae mwy fyth o bwyslais ar wella perfformiad disgyblion ym mhob cyfnod allweddol sy'n cael prydau ysgol am ddim. Gan ddefnyddio adnoddau a strategaethau amrywiol, y mae Gwasanaeth Gwella a Chynnwys Ysgolion, drwy Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De'n cydweithio ag ysgolion i wella cyflawniad a lleihau'r bwllch nid yn unig rhwng grwpiau ac unigolion targed ond ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r gyfran o'r ysgolion a raddiwyd yn y chwarteri uwch neu uchaf o ran eu perfformiad ar bob lefel wedi gwella hefyd, ac yr ydym yn dal i ganolbwyntio ar y maes hwnnw. Bydd yn rhaid cynorthwyo a herio rhai ysgolion penodol yn fwy na'r rhelyw'n gyson er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau i godi.
- Yn ystod ymweliad monitro'n ddiweddar, dywedodd arolygwyr Estyn fod yr awdurdod yn dod yn ei flaen yn dda o safbwynt herio ysgolion yn fwy manwl ac yn ddwysach am eu perfformiad ac ansawdd eu harweinwyr. 'Bu'r awdurdod yn cydweithio'n dda â phenaethiaid, llywodraethwyr a'i wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol er mwyn gwella'r ddarpariaeth'.
- Mae Strategaeth 'Lles ar gyfer Addysg' a'r systemau monitro manwl a ddatblygwyd ar gyfer trafod mesurau lles ar lefel ysgolion a'r awdurdod lleol, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion, fel y dengys y data diweddaraf. Mae mwy na 76,000 o ddisgyblion a phob ysgol ond un yn cymryd rhan ym mhrosiect yr Arolwg Cenedlaethol ar Ymddygiad a Phresenoldeb. Mewn llythyr monitro at staff y Cyngor yn ddiweddar, cydnabu Estyn fod y Fro'n gwneud defnydd da o becyn data'r prosiect hwnnw i benderfynu pa ddisgyblion, dosbarthiadau ac ysgolion a ddylai gael help ychwanegol i gyrraedd safon y mesurau lles. Dywedodd fod y Fro hefyd yn dda o safbwynt monitro effaith y prosiect ar les disgyblion. Serch hynny, y mae angen gwneud mwy o waith o hyd i bwysu a mesur union effaith codi safonau lles nid yn unig ar addysgu a dysgu ond hefyd ar yr hyn sy'n digwydd yn gyffredinol i ddisgyblion yn eu bywydau bob dydd.
- Bu adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar berfformiad (Hydref 2014) yn tynnu sylw at yr angen am gryfhau'r berthynas waith rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, am fod ein perfformiad yn dal yn dila o safbwynt

presenoldeb mewn ysgolion a chynlluniau addysg ar gyfer plant dan ofal. Mae angen lleihau'r bwch cyflawni hefyd rhwng disgyblion dan ofal a gweddill y disgyblion.

Canlyniadau

- Gwella cyrhaeddiad mewn Darllen, Ysgrifennu a Chyfrif fel pynciau ar wahân a phwnc cyfun ym mhob cyfnod allweddol.
- Gwella cyrhaeddiad ym mhynciau TGAU Saesneg a Mathemateg.
- Lleihau'r bwch rhwng y rhai sy'n llwyddo a'r rhai sy'n methu ag ennill graddau A*- C mewn 5 pwnc TGAU (gan gynnwys Saesneg a Mathemateg), i o leiaf 34% ym mlwyddyn academaidd 2014/15. (37.6% yw'r ffigur ar hyn o bryd, a 34% ar gyfer Cymru'n gyffredinol).
- Lleihau'r bylchau cyrhaeddiad a chyflawniad ymhellach yng nghyfnodau allweddol sylfaen, 2 a 3 ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, a sicrhau y gwelir cynnydd unwaith eto yng nghyfnod allweddol 4 fel yn ystod 2012/13.
- Lleihau'r bwch yn y cyfnod sylfaen o 12.5% yn ystod 2013/14 i 10% erbyn 2016.
- Lleihau'r bwch yng nghyfnod allweddol 2 o 14.8% yn ystod 2013/14 i 12% erbyn 2016.
- Lleihau'r bwch yng nghyfnod allweddol 3 o 21.4% yn ystod 2013/14 i 15% erbyn 2016.
- Lleihau'r bwch yng nghyfnod allweddol 4 o 37.6% yn ystod 2014 i 30% erbyn 2016.
- Dengys dadansoddiadau o ddata diwedd tymor ynghylch cynnydd disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, ein bod yn symud ymlaen yn hwylus tuag at ein targedau gosod.
- Bydd pob gwaith ymyrryd sy'n berthnasol i berfformiad disgyblion yn cael ei olrhain a'i fonitro a'i ddadansoddi o safbwynt effeithiolrwydd.
- Hyfforddwyd yr holl staff perthnasol, a byddant yn cael help cyson i ymglyfarwyddo ac ymdrin yn effeithiol â materion sy'n ymwneud â chau'r bwch ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Bydd Gwasanaeth Gwella a Chynnwys Ysgolion yn monitro'r gwaith y bydd ysgolion unigol a Chonsortium Canolbarth y De'n ei wneud er mwyn helpu ysgolion i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i leihau'r bwch a amcangyfrifwyd ar gyfer pob pennaeth ysgol gynradd.
- Sefydlu grŵp uwchradd gyda'r rhai sy'n gyfrifol am y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn lleihau'r bwch yn ysgolion uwchradd y Fro a Phen-y-bont ar Ogwr. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd sy'n canolbwyntio ar rannu ymarfer da.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2012/13 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2011/12)	2013/14 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2012/13)	2013/14 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2013/14)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 2 (CA2): Pawb Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	86.01%	87.97%	82.58%	90%	90.48%	92%
DPC CA 2: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	72.28%	72.73%	66.66%	Heb ei osod	77.6%	Heb ei osod
DPC CA 2: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	88.41%	90.40%	86.65%	Heb ei osod	92.4%	Heb ei osod
Saesneg CA 2: Pawb Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	88.54%	90.54%	85.18%	92%	92.2%	94%
Saesneg CA 2: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	76.24%	77.54%	70.87%	Heb ei osod	81.6%	Heb ei osod
Saesneg CA 2: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	90.69%	92.54%	88.86%	Heb ei osod	93.8%	Heb ei osod
Mathemateg CA 2: Pawb Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y	90.92%	93.39%	86.77%	92%	93%	94%

Dangosydd	2012/13 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2011/12)	2013/14 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2012/13)	2013/14 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2013/14)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.						
Mathemateg CA 2: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	80.69%	75.40%	73.71%	Heb ei osod	83.7%	Heb ei osod
Mathemateg CA 2: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	92.72%	92.80%	90.14%	Heb ei osod	94.4%	Heb ei osod
Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 3 (CA3): Pawb Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	72.39%	82.54%	72.53%	85%	83.96%	87%
DPC CA3: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	43.20%	55.72%	48.41%	Heb ei osod	65.7%	Heb ei osod
DPC CA3: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro.	77.08%	86.58%	77.99%	Heb ei osod	86.8%	Heb ei osod
Saesneg CA3: Pawb Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	78.72%	87.91%	79.33%	90%	88.7%	92%
Saesneg CA3: Disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	53.88%	69.15%	58.94%	74%	74.4%	Heb ei osod

Dangosydd	2012/13 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2011/12)	2013/14 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2012/13)	2013/14 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2013/14)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
Saesneg CA3: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	82.76%	90.62%	83.94%	92%	90.9%	Heb ei osod
Mathemateg Cyfnod Allweddol 3: Pawb Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	83.13%	88.03%	81.08%	90%	89.0%	92%
Mathemateg CA3: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	64.08%	67.16%	61.86%	72%	75.4%	Heb ei osod
Mathemateg CA3: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	86.28%	91.27%	85.46%	93%	91.1%	Heb ei osod
Cyfnod Allweddol 4 (CA4): Pawb Canran y disgyblion 15/16 oed a lwyddodd mewn o leiaf 5 o arholiadau TGAU a chael graddau A* - C neu raddau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol	79.63%	82.61%	72.60%	84%	88.5%	86%
Cyfnod Allweddol 4 (CA4): Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion 15/16 oed sy'n cael prydau ysgol am ddim a lwyddodd mewn o leiaf 5 o arholiadau TGAU a chael graddau A* - C neu raddau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol.	66.7%	71.1%	57.8%	72%	72.3%	Heb ei osod
Cyfnod Allweddol 4 (KS4): Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion 15/16 oed nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a lwyddodd mewn o leiaf 5 o arholiadau TGAU a chael graddau A* - C neu raddau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol.	83.6%	85.6%	83.0%	91%	91.2%	Heb ei osod

Dangosydd	2012/13 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2011/12)	2013/14 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2012/13)	2013/14 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2013/14)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
CA4: Pawb Canran y disgyblion 15/16 oed a gyrhaeddodd safon y DPC.	53.88%	50.21%	48.87%	55%	58.9%	60%
CA4: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion 15/16 year oed sy'n cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd safon y DPC.	26.5%	27.6%	23.2%	29%	29.3%	Heb ei osod
CA4: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion 15/16 oed nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y DPC.	59.3%	54.6%	55.3%	60%	66.1%	Heb ei osod
CA4: Pawb Canran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Saesneg.	66.25%	65.58%	62.22%	71%	74.3%	73%
CA4: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Saesneg.	40.74%	39.91%	36.56%	39%	39.6%	Heb ei osod
CA4: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Saesneg.	71.28%	70.58%	68.63%	77%	77.2%	Heb ei osod
CA4: Pawb Canran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Mathemateg.	61.19%	62.34%	58.36%	71%	73.6%	73%
CA4: Prydau Ysgol am ddim Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Mathemateg.	38.27%	42.54%	33.69%	36%	36.1%	Heb ei osod
CA4: Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim Canran y disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Mathemateg.	65.61%	66.26%	65.87%	70%	74.2%	Heb ei osod

Dangosydd	2012/13 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2011/12)	2013/14 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2012/13)	2013/14 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2013/14)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
Canran y disgyblion a oedd eisoes yn 15 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyrhaeddodd safon trothwy lefel 2 a llwyddo mewn arholiadau TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a mathemateg, a chael graddau A*-C .	55.31%	55.42%	51.08%	65%	62%	65%